

# **Cyngor Cymuned Llanllyfni**

## **Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth y 12ed o Fehefin 2007**

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr T Les Jones (Cadair) – Nantlle; Ifan Glyn Jones, Dyfed Edwards, Elwyn Jones Griffith – Penygroes; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, Richard Evans – Llanllyfni; Harry Wyn Owen – Talysarn; OP Huws, Dilwyn Lloyd – Cynghorwyr Sir.

Derbyniwyd y csesiadau cynllunio isod ar gyfer sylwadau'r Cynghorwyr:

- Gardd Iago, Nebo – Estyniad.
- 73 Ffordd Hyfrydle, Talysarn – Estyniad cefn deulawr.
- Plas Dorothea, Talysarn – Trosi stablau yn lety gwyliau a tanc septic newydd.
- Yr Hen Felin Wlan, Ffordd Clynnog, Penygroes – Creu ffenestr dormar gyda balconi.
- Capel Nazareth, Llanllyfni – Gosod llechi crog ar edrychiad deheuol.
- Hen glwb social Nantlle Vale, Penygroes – Adeiladu gorsaf heddlu.

Hysbyswyd y Cyngor o benderfyniadau'r Awdurdodau perthnasol ar geisiadau cynllunio eraill sef:

### CANIATAU

- Estyniad 112 Ffordd Rhedyw, Llanllyfni;
- Newid amod 5 ar ganiatad cynllunio i ddefnyddio ystafell fel storfa Tyddyn Bengan, Ffordd Clynnog;
- Estyniadau a modurdy 1 a 2 Bryn Hwylfa, Penygroes;
- Estyniad llawr cyntaf a dymchwel ac ail-adeiladu modurdy 3 Glan Rhonwy, Nantlle;
- Symud deunydd o ddyddodion gweithio mwynau ar gyfer gorchudd ddyddiol i'r tomen ysbwriel cyfagos ger tip gwastraff Gloddfa, Cilgwyn;
- Codi ystafell bwyler biomas a storfa tanwydd rhan o ardd Trigonos, Nantlle;
- Ffordd fynediad, cwpwrdd offer a gwaith cysylltiedig ar gyfer Dwr Cymru llain o dir de ddwyrain i Stad Ddiwydiannol Penygroes;
- Gosod gorlif ar gyfer carthffos gyfunol a gwaith cysylltiedig ger B4418, Coed Madog, Talysarn;
- Gosod tri arwydd newydd siop fwyd Co-op, Penygroes;
- Estyniad Gardd Iago, Nebo.

### GWRTHODWYD

- Sied amaethyddol cae Bron Meirch, Penygroes a chais amlinellol am ddau dy yng nghae Bron Meirch, Penygroes.
- Derbyniwyd e-bost gan Alun Wyn Jones, Cyngor Gwynedd yn dilyn cyfarfod safle yng nghae chwarae Cwting, Penygroes. Mae'r cae wedi dod yn gyflwr da, a hoffai'r Cyngor ei weld yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gemau pel droed i dimau o dan 7 ac o dan 9 Nantlle Vale os y byddent a diddordeb.
- Mae cyfarfod safle wedi ei gynnal rhwng swyddogion Cyngor Gwynedd a'r Heddlu i geisio rhoi terfyn ar y problemau o ymddwyn anghyfrifol a chynnau tan ar rannau o lwybr Lon Eifion.
- Cawsom ymateb i lythyr am y difyg o le parcio yn Lon Ddwr, Llanllyfni. Er gwybodaeth, mae gwaith wedi ei ddechrau i gael lle parcio yno.
- Bydd dau Gynghorydd yn mynychu ymweliad safle yng nghanolfan ailgylchu Caerylchu, Cibyn ar ran y Cyngor Cymuned.

- Bu dau Gynghorydd mewn cyfarfod gyda'r Heddlu ynglyn a phlismaona cymdogaethau. Cawsant gyfle i leisio pryderon y Cyngor gan gynnwys y broblem o yfed dan oed. Mae angen mwy o bresenoldeb yr Heddlu ar nos Wener a Nos Sadwrn. Hefyd, mae pryder gan y Cyngor bod problemau parcio ym Mhenygroes wedi gwaethygu nawr bod Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am reoli parcio. Byddwn yn ysgrifennu at y Swyddog yng Nghyngor Gwynedd.

**Adroddiadau Pentrefi:** Trafodwyd y canlynol yn y cyfarfod, a byddwn yn cysylltu a'r Awdurdod perthnasol i dynnu eu sylw atynt.

Penygroes:

- Waliau gerddi ar stad Trem yr Wyddfa angen eu asesu – nifer o graciau ynddynt.
- Y Vic yn fler, ffenestri yn cael eu torri yn wythnosol.
- Cae tu ol i Trem y Wyddfa yn tyfu'n wyllt – mae trigolion yn cael trafferth efo'r dwr yn y gerddi cefn pan mae'n bwrw.

Llanllyfni:

- Tipio anghyfreithlon ger giat hen dwll chwarel Tyddyn Agnes ar y ffordd i Cwm Silyn. Byddwn yn cysylltu a Chyngor Gwynedd. Rhaid gofyn i'r cyhoedd roi gwybod i Gyngor Gwynedd os ydynt yn ymwybodol pwy sydd yn gyfrifol am unrhyw dipio anghyfreithlon yn y gymuned.

Talysarn:

- Tipio ger mynedfa i dy chwarel Dorothea.
- Llwybr o Coedmadog i lawr am boncan eithin angen ei dorri.
- Preniau wedi pydru o amgylch y trim trac ac yn beryglus.

Nebo:

- Pobl yn campio wrth ymyl y llyn Cwm Dulyn.
- Camfa ar y llwybr ger Rhydlydan wedi cwmpo a mieri yn tyfu drwyddo.